Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2026 Rhif 76

# Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mawrth 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2026 No. 76

# The Senedd Cymru (Returning Officers’ Charges) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2026* |
| *Coming into force* | *17 March 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 76

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan erthygl 23 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (O.S. 2025/864) (Cy. 150) ("Gorchymyn 2025") sy'n darparu bod gan swyddog canlyniadau hawlogaeth i adennill taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir neu dreuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad Senedd Cymru, neu mewn cysylltiad ag etholiad Senedd Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys y cyfansymiau mwyaf y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer cynnal etholiad Senedd Cymru neu mewn cysylltiad â hynny.

Dirymwyd y gorchymyn taliadau blaenorol, sef Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021 (O.S. 2021/315) (Cy. 80), yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed penodol, ar 18 Gorffennaf 2025 gan Orchymyn 2025.

Mae erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn pennu'r cyfansymiau mwyaf sy'n adenilladwy gan swyddogion canlyniadau am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath. Mae'r swm sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir yn ymwneud â gweinyddu etholiadol a chyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â'r etholiad gan swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol. Mae'r symiau wedi eu rhestru yn y tabl yn yr Atodlen.

Mae erthygl 6 yn pennu'r cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy gan swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiad i'r Senedd nas ymleddir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 76

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# SENEDD CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan erthygl 23(4)(a) i (c), (6) ac (11) o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

mae "etholaeth Senedd" ("*Senedd constituency*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf 2006(**3**);

ystyr "etholiad i'r Senedd" ("*Senedd election*") yw etholiad i ddychwelyd aelod o'r Senedd ar gyfer un o etholaethau'r Senedd;

ystyr "Gorchymyn 2025" ("*the 2025 Order*") yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025;

mae i "Senedd" ("*Senedd*") yr un ystyr ag yn adran 1(1) o Ddeddf 2006(**4**);

(**1**) O.S. 2025/864 (Cy. 150).
(**2**) 2006 p. 32.
(**3**) Amnewidiwyd adran 2 gan adran 2(1) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).
(**4**) Diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "swyddog canlyniadau" ("*returning officer*") yw'r swyddog sydd, yn unol ag erthygl 18(2) o Orchymyn 2025, yn swyddog canlyniadau ar gyfer un o etholaethau'r Senedd.

### Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy am etholiad i'r Senedd a ymleddir

**3.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf y caiff swyddog canlyniadau ei adennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, yw'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth yng ngholofn 4 o'r tabl yn yr Atodlen.

### Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir mewn etholiad i'r Senedd a ymleddir

**4.**—(1) Ni chaiff y cyfanswm y caiff swyddog canlyniadau ei adennill am wasanaethau a ddarperir ar gyfer etholiad i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodlen.

(2) Rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir fod ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau'r swyddog canlyniadau a'r gweinyddwr etholiadol mewn cysylltiad â'r etholiad.

### Y cyfanswm mwyaf sy'n adenilladwy am dreuliau penodedig yr eir iddynt mewn etholiad i'r Senedd a ymleddir

**5.**—(1) Ni chaiff y cyfanswm y caiff swyddog canlyniadau ei adennill am dreuliau penodedig yr eir iddynt ar gyfer etholiad i'r Senedd a ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o'r fath, fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob etholaeth yng ngholofn 2 o'r tabl yn yr Atodlen.

(2) Caiff swyddog canlyniadau adennill treuliau penodedig yr eir iddynt ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau;

(b) treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos y swyddog canlyniadau ac unrhyw berson a benodir i gynorthwyo'r swyddog canlyniadau;

(c) costau'r broses enwebu;

(d) argraffu neu gynhyrchu fel arall y papurau pleidleisio;

(e) argraffu neu gynhyrchu fel arall neu brynu deunyddiau ysgrifennu ar gyfer pleidleisio drwy'r post;

(f) argraffu neu gynhyrchu fel arall gardiau pleidleisio, a threfnu i'w dosbarthu;

(g) argraffu neu gynhyrchu fel arall yr holl hysbysiadau a dogfennau etholiad, a'u cyhoeddi;

(h) rhentu, gwresogi, goleuo, glanhau, addasu neu adfer unrhyw adeilad neu unrhyw ystafell;

(i) darparu a chludo cyfarpar;

(j) darparu cyfarpar a meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chostau cysylltiedig;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(k) darparu diogelwch, gan gynnwys storio blychau pleidleisio, papurau pleidleisio a dogfennau gwirhau yn ddiogel;

(l) cynnal y gwirhau a’r cyfrif;

(m) darparu a chael hyfforddiant;

(n) darparu deunyddiau ysgrifennu a thalu costau postio, ffonio, argraffu, cyfieithu a bancio a chostau eitemau amrywiol eraill.

**Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy’n adenilladwy am etholiad i’r Senedd nas ymleddir**

**6.** Y cyfanswm cyffredinol mwyaf y caiff swyddog canlyniadau ei adennill am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad i’r Senedd nas ymleddir, neu mewn cysylltiad ag etholiad o’r fath, yw £2,500 (dwy fil pum cant o bunnoedd).

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
9 Mawrth 2026

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Erthyglau 3, 4 a 5

## Y cyfansymiau sy'n adenilladwy am wasanaethau a ddarperir a threuliau yr eir iddynt mewn etholiad i'r Senedd a ymleddir

| 1. Etholaeth Senedd | 2. Y cyfanswm am dreuliau yr eir iddynt | 3. Y cyfanswm am wasanaethau a ddarperir gan weinyddwyr etholiadol | 4. Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy |
|---|---|---|---|
| Afan Ogwr Rhondda | £638,116 | £16,900 | £655,016 |
| Bangor Conwy Môn | £538,346 | £16,900 | £555,246 |
| Blaenau Gwent Caerffili Rhymni | £597,908 | £16,900 | £614,808 |
| Brycheiniog Tawe Nedd | £606,287 | £16,900 | £623,187 |
| Caerdydd Ffynnon Taf | £600,488 | £16,900 | £617,388 |
| Caerdydd Penarth | £605,179 | £16,900 | £622,079 |
| Casnewydd Islwyn | £658,519 | £16,900 | £675,419 |
| Ceredigion Penfro | £659,071 | £16,900 | £675,971 |
| Clwyd | £646,622 | £16,900 | £663,522 |
| Fflint Wrecsam | £630,004 | £16,900 | £646,904 |
| Gwynedd Maldwyn | £628,161 | £16,900 | £645,061 |
| Gŵyr Abertawe | £640,652 | £16,900 | £657,552 |
| Pen-y-bont Bro Morgannwg | £651,891 | £16,900 | £668,791 |
| Pontypridd Cynon Merthyr | £621,515 | £16,900 | £638,415 |
| Sir Fynwy Torfaen | £620,165 | £16,900 | £637,065 |
| Sir Gaerfyrddin | £659,653 | £16,900 | £676,553 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 76

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

# SENEDD CYMRU

## The Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order is made under article 23 of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025 (S.I. 2025/864) (W. 150) ("2025 Order") which provides that a returning officer is entitled to recover charges in respect of services rendered or expenses incurred for, or in connection with, a Senedd Cymru election.

This Order contains the maximum amounts a returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, the conduct of a Senedd Cymru election.

The previous charges order, the Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2021 (S.I. 2021/315) (W. 80), was revoked, subject to certain savings provisions, on 18 July 2025 by the 2025 Order.

Articles 3, 4 and 5 of this Order specify the maximum amounts recoverable by returning officers for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd election. The amount recoverable for services rendered is concerned with electoral administration and the discharge of duties relating to the election by returning officers and electoral administrators. The amounts are listed in the table in the Schedule.

Article 6 specifies the maximum amount recoverable by returning officers for an uncontested Senedd election.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government's website at www.gov.wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 76

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

## The Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2026* |
| *Coming into force* | *17 March 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by article 23(4)(a) to (c), (6) and (11) of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025(**1**), make the following Order.

### Title and coming into force

**1.**—(1) The title of this Order is the Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 17 March 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the 2006 Act" ("*Deddf 2006*") means the Government of Wales Act 2006(**2**);

"the 2025 Order" ("*Gorchymyn 2025*") means the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025;

"returning officer" ("*swyddog canlyniadau*") means the officer who, in accordance with article 18(2) of the 2025 Order, is the returning officer for a Senedd constituency;

"Senedd" ("*Senedd*") has the same meaning as in section 1(1) of the 2006 Act(**3**);

"Senedd constituency" ("*etholaeth Senedd*") is to be construed in accordance with section 2 of the 2006 Act(**4**);

(**1**) S.I. 2025/864 (W. 150).
(**2**) 2006 c. 32.
(**3**) Section 1(1) was amended by paragraph 2 of Schedule 1 to the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).
(**4**) Section 2 was substituted by section 2(1) of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"Senedd election" ("*etholiad i'r Senedd*") means an election to return a Senedd member for a Senedd constituency.

**Overall maximum recoverable amount for a contested Senedd election**

**3.** The overall maximum amount a returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd election is the amount listed for each constituency in column 4 of the table in the Schedule.

**Maximum recoverable amount for services rendered at a contested Senedd election**

**4.**—(1) The total amount a returning officer may recover for services rendered for, or in connection with, a contested Senedd election must not exceed the amount listed for each constituency in column 3 of the table in the Schedule.

(2) Any services rendered must be for, or in connection with—

(a) making arrangements for the election;

(b) conducting the election;

(c) discharging all of the returning officer's and electoral administrator's duties in respect of the election.

**Maximum recoverable amount for specified expenses incurred at a contested Senedd election**

**5.**—(1) The total amount a returning officer may recover for specified expenses incurred for, or in connection with, a contested Senedd election must not exceed the amount listed for each constituency in column 2 of the table in the Schedule.

(2) A returning officer may recover specified expenses incurred for, or in connection with—

(a) the appointment and payment of persons to assist the returning officer;

(b) travel and overnight subsistence for the returning officer and any person appointed to assist the returning officer;

(c) the costs of the nomination process;

(d) printing or otherwise producing the ballot papers;

(e) printing or otherwise producing or purchasing postal vote stationery;

(f) printing or otherwise producing, and arranging for the delivery of, poll cards;

(g) printing or otherwise producing and publishing all election notices and documents;

(h) renting, heating, lighting, cleaning, adapting or restoring any building or room;

(i) providing and transporting equipment;

(j) providing information and communications technology equipment and software and associated costs;

(k) providing security, including secure storage of ballot boxes, ballot papers and verification documents;

(l) conducting the verification and the count;

(m) providing and receiving training;

(n) providing stationery and meeting postage, telephone, printing, translation and banking costs and the costs of other miscellaneous items.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Overall maximum recoverable amount for an uncontested Senedd election

**6.** The overall maximum amount a returning officer may recover for services rendered and expenses incurred for, or in connection with, an uncontested Senedd election is £2,500 (two thousand five hundred pounds).

*Jayne Bryant*
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
9 March 2026

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# SCHEDULE

Articles 3, 4 and 5

## Total recoverable amounts for services rendered and expenses incurred at a contested Senedd election

| 1. Senedd constituency | 2. Total amount for expenses incurred | 3. Total amount for services rendered by electoral administrators | 4. Overall maximum recoverable amount |
|---|---|---|---|
| Afan Ogwr Rhondda | £638,116 | £16,900 | £655,016 |
| Bangor Conwy Môn | £538,346 | £16,900 | £555,246 |
| Blaenau Gwent Caerffili Rhymni | £597,908 | £16,900 | £614,808 |
| Brycheiniog Tawe Nedd | £606,287 | £16,900 | £623,187 |
| Caerdydd Ffynnon Taf | £600,488 | £16,900 | £617,388 |
| Caerdydd Penarth | £605,179 | £16,900 | £622,079 |
| Casnewydd Islwyn | £658,519 | £16,900 | £675,419 |
| Ceredigion Penfro | £659,071 | £16,900 | £675,971 |
| Clwyd | £646,622 | £16,900 | £663,522 |
| Fflint Wrecsam | £630,004 | £16,900 | £646,904 |
| Gwynedd Maldwyn | £628,161 | £16,900 | £645,061 |
| Gŵyr Abertawe | £640,652 | £16,900 | £657,552 |
| Pen-y-bont Bro Morgannwg | £651,891 | £16,900 | £668,791 |
| Pontypridd Cynon Merthyr | £621,515 | £16,900 | £638,415 |
| Sir Fynwy Torfaen | £620,165 | £16,900 | £637,065 |
| Sir Gaerfyrddin | £659,653 | £16,900 | £676,553 |